

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**(FFORDD LLANTRISANT, TONYREFAIL)**

**GORCHYMYN (TERFYN CYFLYMDER) 2022 A HYSBYSIAD (MESURAU ARAFU TRAFFIG) 2022**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor") yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adrannau 1, 2, 4, 81, 82, 83 ac 84 Deddf Rheoleiddio Traffig 1984 ("y Ddeddf") a phob un o'r holl bwerau galluogi eraill, a'i effaith fydd:

1. Cyflwyno terfyn cyflymder o 20 mya ar y ffyrdd sydd wedi'u nodi yn Atodlen 1

**DYMA HYSBYSIAD** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, o dan Adrannau 90A, 90C a 90G o Ddeddf Priffyrdd 1980, Rheoliadau Priffyrdd (Twmpathau Ffyrdd) 1999 a Rheoliadau Priffyrdd (Arafu Traffig) 1999, a phob pŵer galluogi, yn bwriadu cyflwyno'r mesurau arafu traffig canlynol:

2. Clustogau arafu (rhwng 25 milimetr a 100 milimetr o uchder, 1900 milimetr o led a 2500 milimetr o hyd) i'w darparu fesul dau yn y lleoliad sydd wedi'i nodi yn Atodlen 2, neu yn ei gyffiniau
3. Clustogau arafu (rhwng 25 milimetr a 100 milimetr o uchder, 1700 milimetr o led) i'w darparu fesul tri yn y lleoliad sydd wedi'i nodi yn Atodlen 3, neu yn ei gyffiniau
4. Twmpathau ffyrdd lled llawn gyda phennau gwastad (15 metr o hyd, 100 milimetr o uchder) i'w darparu yn y lleoliad sydd wedi'i nodi yn Atodlen 4, neu yn ei gyffiniau

Mae modd archwilio copi o'r dogfennau perthnasol ar-lein: [www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk)

Rhaid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig arfaethedig ynghyd â'r rhesymau drostyn nhw, mewn ysgrifen, at y Rheolwr Traffig, Tŷ Sardis, Heol Sardis, Pontypridd CF37 1DU, neu drwy e-bost: [GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk](mailto:GwasanaethauTraffig@rctcbc.gov.uk) erbyn 7 Rhagfyr 2022

**ATODLEN 1 – Terfyn cyflymder 20 mya**

1. Ffordd Llantrisant, Tonyrefail, o bwynt 53 metr i'r gogledd o ffin ogleddol Rhif 8, i bwynt 50 metr i'r gogledd-orllewin o linell ganol ei chyffordd â datblygiad preswyl Trem-Y-Dolau, pellter o tua 593 metr
2. Hafod Wen, Tonyrefail yn ei chyfanrwydd
3. Yr Ucheldir, Tonyrefail yn ei chyfanrwydd
4. Trem-Y-Dolau, Tonyrefail yn ei chyfanrwydd

**ATODLEN 2 – Clustogau Arafu (grwpiau o ddau)**

Clustogau arafu i gael eu darparu fesul dau, yn y lleoliadau canlynol, neu yn eu cyffiniau:

**1. Ffordd Llantrisant, Tonyrefail**

- a. O bwynt 32 metr i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â datblygiad preswyl Trem-Y-Dolau

**ATODLEN 3 – Clustogau Arafu (grwpiau o dri)**

Clustogau Arafu fesul tri yn y lleoliadau canlynol, neu yn eu cyffiniau:

**1. Ffordd Llantrisant, Tonyrefail**


- a. O bwynt 145 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â datblygiad preswyl Trem-Y-Dolau
- b. O bwynt 61 metr i'r de-ddwyrain o linell ganol ei chyffordd â Hafod Wen
- c. O bwynt 17 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â Heol Tŷ Llwyd
- d. O bwynt 80 metr i'r de o linell ganol ei chyffordd â Heol Tŷ Llwyd
- e. O bwynt 156 metr i'r de-ddwyrain o linell ganol ei chyffordd â Heol Tŷ Llwyd

**ATODLEN 4 – Twmpath Ffordd Lled Llawn gyda Phennau Gwastad**

**1. Ffordd Llantrisant, Tonyrefail**

- a. O bwynt sydd 53 metr o linell ganol ei chyffordd â datblygiad preswyl Trem-Y-Dolau

**Dyddiad 16 Tachwedd 2022**



**Andrew Wilkins**  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol  
Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, CF40 2XX

**RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**(LLANTRISANT ROAD, TONYREFAIL)**

**(SPEED LIMIT) ORDER 2022 AND (TRAFFIC CALMING MEASURES) NOTICE 2022**

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council propose to make an Order under Sections 1, 2, 4, 81, 82, 83 and 84 of the Road Traffic Regulation Act 1984 ("the Act"), and of all other enabling powers, the effect of which will be to:

1. Introduce a 20mph speed limit on the roads identified in Schedule 1

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that the Rhondda Cynon Taff County Borough Council propose under Sections 90A, 90C and 90G of the Highways Act 1980, the Highways (Road Humps) Regulations 1999 and the Highways (Traffic Calming) Regulations 1999 and all enabling powers, to implement the following traffic calming measures:

2. Speed Cushions (between 25 - 100mm in height, 1900mm wide and 2500mm long), to be provided in sets of two at, or within the vicinity of the locations specified in Schedule 2
3. Speed Cushions (between 25 - 100mm in height, 1700mm wide), to be provided in groups of three at, or within the vicinity of the locations specified in Schedule 3
4. Full width, Flat Top Road Hump (15 metres in length, 100mm in height) to be provided at, or within the vicinity of the location specified in Schedule 4

A copy of the relevant documents may be inspected online at [www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk)

Objections to the proposal together with the grounds on which they are made must be sent in writing to the Traffic Manager, Sardis House, Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU or by email on [trafficservices@rctcbc.gov.uk](mailto:trafficservices@rctcbc.gov.uk) by 7th December 2022

**SCHEDULE 1 – 20MPH Speed Limit**

1. Llantrisant Road, Tonyrefail from a point 53 metres north of the northern boundary of No. 8, to a point 50 metres north west of the centreline of its junction with the residential development, Trem-Y-Dolau, a distance of approximately 593 metres.
2. Hafod Wen, Tonyrefail in its entirety
3. Highlands, Tonyrefail in its entirety
4. Trem-Y-Dolau, Tonyrefail in its entirety

**SCHEDULE 2 – Speed Cushions sets of two**

Speed Cushions in sets of two, at or within the vicinity of the following locations:

1. **Llantrisant Road, Tonyrefail**
  - a. At a point 32 metres north of the centreline of its junction with Trem-Y-Dolau, residential development

**SCHEDULE 3 – Speed Cushions groups of three**


Speed Cushions in groups of three, at or within the vicinity of the following locations:

1. **Llantrisant Road, Tonyrefail**
  - a. At a point 145 metres south of the centreline of its junction with Trem-Y-Dolau, residential development
  - b. At a point 61 metres southeast of the centreline of its junction with Hafod Wen
  - c. At a point, 17 metres south of the centreline of its junction with Heol TyLlwyd
  - d. At a point, 80 metres south of the centreline of its junction with Heol TyLlwyd
  - e. At a point, 156 metres south east of the centreline of its junction with Heol TyLlwyd

**SCHEDULE 4 – Full Width, Flat Top Road Hump**

1. **Llantrisant Road, Tonyrefail**
  - a. At a point 53 metres south of the centreline of its junction with Trem-Y-Dolau, residential development

**Dated 16 November 2022**



**Andrew Wilkins**  
**Director of Legal Services**  
**The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, CF40 2XX**